



Gwelliannau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Mesur Iaith Gymraeg 2010

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi bod yn ymgyrchu am fesur sy'n rhoi hawliau i bobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg oherwydd rydym yn meddwl mai dyma'r ffordd o rymuso pobl, nid cyrff a chwmnïau, a mynd i'r afael a'r anghyfartaledd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Rydym wedi ein siomi fawr gan broses sydd wedi methu cyflawni'r hyn addawodd Llywodraeth Cymru'n Un. Eithriwyd rhan helaeth o'r sector breifat ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth fod awydd gan y Llywodraeth i roi'r Gymraeg o fewn yr agenda hawliau dynol.

Er mwyn ceisio gwneud y gorau o'r sefyllfa gymysglyd mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi ei greu, rydym am osod yr argymhellion canlynol er mwyn diwygio'r mesur o'i ddrafft presennol. Rydym yn gobeithio y bydd ein cyfraniad i'r drafodaeth yn fodd o achub sefyllfa ddiffygiol ac un sy'n mynd yn groes i ddymuniadau ymgyrchwyr.

Petasai'r Mesur yn cael ei ddiwygio gyda'r holl welliannau isod, bydd gan gefnogwyr yr iaith a chenedlaethau'r dyfodol sylfeini clir ar gyfer y Gymraeg i'r sawl sydd am gael cyfiawnder heddiw i ddefnyddio'r iaith ac er lles y genhedlaeth nesaf.

1. Teitl hir (Rhagymadrodd):

1.1. Dileu'r fersiwn presennol a mewnosod:

“Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu i'r iaith Gymraeg, a hithau'n briod iaith Cymru, fod yn iaith swyddogol yng Nghymru; i roi i unigolion hawliau i'r Gymraeg; i sefydlu Comisiynydd Iaith Cymru; i sefydlu Cyngor yr Iaith Gymraeg; ac i ddibenion cysylltiedig.”

2. Y Gymraeg yn Iaith Swyddogol

2.1. Dileu'r fersiwn presennol a mewnosod:

“1. Y Gymraeg yn Briod Iaith Cymru

(1) Y Gymraeg yw priod iaith Cymru.”

“2. Y Gymraeg yn Iaith Swyddogol

(1) Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

(2) Er mwyn osgoi amheuaeth, datgenir drwy hyn fod gan unrhyw beth a wneir yn Gymraeg yr un dilysrwydd a phe bai ef wedi'i wneud yn Saesneg.”

Comisiynydd Iaith Cymru

3. Penodi'r Comisiynydd

3.1. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol benodi'r Comisiynydd ac aelodau Cyngor yr Iaith Gymraeg trwy ddefnyddio system benodi wahanol, gan gynnwys gwrandawiadau cyn-benodi cyhoeddus er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar enwebiadau Gweinidogion Cymru i'r swyddi hyn.

Swyddogaethau'r Comisiynydd

4. Pwrpas Cliriach i'r Comisiynydd

4.1. Dileu adran 3(1), a mewnosod:

“Y mae’n ddyletswydd ar y Comisiynydd i:

(i) hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg;

(ii) hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a’r Saesneg;

(iii) ymchwilio i ymyrraeth â’r hawl i ddefnyddio’r Gymraeg fel y’i diffinnir yn adrannau [cyfeirio wedyn at yr adrannau newydd/diwygiedig sy’n sefydlu hawl cyffredinol i’r Gymraeg - Rhan 4 newydd – ac hawl i ddefnyddio’r Gymraeg – Rhan 6 newydd].

4.2. Ychwanegu is-adran newydd o dan 3(2):

“(k) lleisio’n gyhoeddus farn ar ddefnydd a thriniaeth y Gymraeg gan gwmnïau yn y sector preifat, nad yw’n gyfyngedig i’r math o gwmnïau a restrir yn yr Atodlenni i’r Mesur hwn.”

5. Cyngor y Gymraeg yn gyfrifol am hyrwyddo’r Gymraeg

5.1. Mewnosod Rhan 7 'Cyngor yr Iaith Gymraeg' o *Mesur yr Iaith Gymraeg 2007* a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, 2007.

5.2. Yn adran 134(2), ar ôl y geiriau "swyddogaethau" mewnosod *"rheoleiddio a dyfarnu"* ac ychwanegu is-adran (5) newydd *"Trosglwyddir swyddogaethau hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg i Gyngor y Gymraeg"*.

6. Un tymor yn unig i’r Comisiynydd

6.1. Dileu y gair *“ddwywaith”* yn Atodlen 1 (3)(2)(a) a mewnosod *“unwaith”* [nodyn, *unwaith yn unig y caiff unigolyn ei benodi fel Comisiynydd*]

6.2. Yn Atodlen 1 6(1) dileu y gair *“5 mlynedd”* ac mewnosod *“7 mlynedd”*

7. Cryfhau Annibyniaeth y Comisiynydd

7.1. Dileu adran 82(4) [dileu yr uchafswm £5000 cosb sifil ar gwmni neu gorff]

7.2. Dileu adran 15 [pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd]

7.3. Dileu adrannau 22 a 23 [dileu Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg]

8. Sefydlu hawliau cyffredinol i gyd-fynd â safonau

8.1. Mewnosod rhan 4 newydd:

“(1) Mae gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

(2) Nid yw isadran (1) uchod yn gosod dyletswyddau ar bersonau ac eithrio yn unol â Rhan 4 y Mesur hwn.” [Nodyn: h.y. y Rhan o'r Mesur sy'n ymwneud â safonau].

9. Eglurdeb i'r cyhoedd: Isafswm Safonau

9.1. Angen i gynnwys isafswm o safonau er mwyn gwneud yn gliriach i'r cyhoedd yr hyn y gallent ei ddisgwyl fel gwasanaethau Cymraeg.

Byddai hynny'n golygu ychwanegu adran 25 (1) newydd i'r Mesur.

10. Gwasanaethau gwell nag o dan gynulliau iaith

10.1. Ychwanegu adran 25 (2) newydd:

“Wrth bennu'r safonau gofynnol sylfaenol hyn, rhaid talu sylw priodol i gynnwys cynlluniau iaith Gymraeg a wnaed o dan adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sicrhau nad yw'r safonau gofynnol sylfaenol yn lleihau'r ymrwymadau a wnaed yn y cynlluniau hyn o ran nifer, ystod, na

safon.”

11. Safonau Hybu yn gymwys i bob gorff

11.1. Mewnosod is-adran 36(2)(c) newydd:

“yn safon hybu”

11.2. Ychwanegu yng ngholofn 2, Atodlen 6 ar ôl pob gorff a restrir:

“safonau hybu”

12. Sicrhau gwell darpariaeth TG yn Gymraeg, hyfforddiant am y Gymraeg, yn y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg a defnydd gwell o'r Gymraeg yn y gweithle trwy'r safonau

12.1. Ychwanegu'r canlynol at Atodlen 9:

“meddalwedd;

technoleg gwybodaeth;

hyfforddiant sgiliau;

defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle”

[Dylai'r rhestr o wasanaethau y bydd yn rhaid i'r llywodraeth eu cynnwys o dan safonau yn Atodlen 9 gynnwys meddalwedd, technoleg gwybodaeth, hyfforddiant sgiliau, a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.]

13. Hawl i Herio: yr Unigolyn

13.1. Ychwanegu Pennod 7 newydd ac adran 53 newydd:

Rhwymed yr Unigolyn

1) Caiff unrhyw un sydd wedi dioddef niwed o ganlyniad i fethiant gan berson i gydymffurfio â gofyniad perthnasol ddwyn achos am iawndal yn Nhrifiwnlys y Gymraeg yn erbyn y person hwnnw o dan yr adran hon.

2) At ddibenion is-adran (1), mae "niwed" yn cynnwys anaf i deimladau.

3) Mewn gwrandawriad ar gyfer hawliad o dan yr adran hon—

a) Rhaid i Dribiwnlys y Gymraeg ganiatáu cais i atal achos oherwydd niwed i ymchwiliad o'r fath onid yw'n fodlon na chaiff yr ymchwiliad ei niweidio.

b) Gall Tribiwnlys y Gymraeg ganiatáu cais i oedi'r achos tan y bydd ymchwiliad o'r fath wedi dod i ben.

2) Ni ellir dwyn achos o dan yr adran hon ar ôl—

a) cyfnod o 6 mis yn dechrau ar ddyddiad y methiant y mae'r hawliad yn berthnasol iddo, neu (os yw hynny'n hwyrach)

b) cyfnod arall sydd yn gyfiawn ac yn deg ym marn Tribiwnlys y Gymraeg.

3) At ddibenion yr adran hon, dylid trin achos o fethu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol dros gyfnod o amser fel petai wedi digwydd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

4) Lle bo achos honedig o fethu, y dygwyd hawliad o dan yr adran hon amdano, wedi bod yn destun ymchwiliad gan y Comisiynydd o dan *[cyfeirio at yr adrannau priodol yn ymwneud ag ymchwiliadau yn y Mesur]*, dylai Tribiwnlys y Gymraeg drin unrhyw ganfyddiad ffeithiol sy'n berthnasol i'r hawliad hwnnw fel tystiolaeth derfynol o'r ffaith honno.

[Nodyn, modelir yr adran hon (gyda newidiadau) ar adrannau 114-119 Deddf Cydraddoldeb 2010.]

14. 'Hawl i Ddefnyddio'r Gymraeg' yn hytrach na 'rhyddid'

14.1. Ailenwi Rhan 6 yn *'Hawl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu'*

14.2. A newid yr adrannau perthnasol i gyfeirio at "*hawl*" yn hytrach na "*rhyddid*" hefyd.